Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Ymgysylltu Effeithiol gydag Awdurdodau Lleol

Pecyn cymorth ar gyfer Pobl Hŷn

Gorffennaf 2014

Cynnwys

Rhagair	**03**
Cyd-destun	**05**
Pa gynlluniau sydd gan fy Awdurdod Lleol?	**07**
Pa wybodaeth a allaf ofyn amdani?	**08**
Beth ddylai fy Awdurdod Lleol fod yn ei wneud?	**09**
Beth allaf ei wneud os nad wyf yn fodlon?	**12**
Pa gefnogaeth sydd ar gael? Pwy all fy helpu?	**14**
Mae'r penderfyniad wedi cael ei wneud. Beth arall allaf i ei wneud? A oes yna unrhyw ffyrdd eraill?	**15**
Deg Cwestiwn Allweddol a Rhestr Gyfeirio	**17**
Atodiad A: Cysylltu â'ch Awdurdod Lleol	**19**
Atodiad B: Sefydliadau Gwasanaethau Cymunedol, rhwydweithiau, elusennau a grwpiau lobïo/ymgyrchu	**24**
Atodiad C: Llythyr Enghreifftiol Gwasanaethau Cymunedol	**26**
Atodiad D: Canllawiau a gyhoeddwyd o dan A.12 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006	**28**

Rhagair

Wrth deithio ar hyd a lled Cymru fel rhan o'm Sioe Ymgysylltu Deithiol i siarad a chwrdd â phobl hŷn ynglŷn â'r pethau sy'n bwysicaf iddyn nhw, mae llawer wedi rhannu eu pryderon gyda mi bod y gwasanaethau cymunedol y maen nhw'n dibynnu arnyn nhw – bysiau lleol, toiledau cyhoeddus, llyfrgelloedd, canolfannau dydd a chanolfannau cymunedol a chanolfannau dysgu gydol oes – mewn perygl o ddiflannu, a fydd yn cael effaith ddinistriol ar eu bywydau.

Mae llawer o bobl hŷn yn dweud wrthyf nad ydyn nhw'n gwybod sut i ymgysylltu gydag Awdurdodau Lleol a dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau ac maen nhw'n teimlo'n analluog yn aml pan mae Awdurdodau Lleol yn cynnig lleihau neu derfynu'r gwasanaethau hanfodol hyn.

Yn ogystal, mae pobl hŷn yn dweud wrthyf nad oes cyfleoedd digonol i fynegi eu barn ac maen nhw'n teimlo bod eu pryderon yn aml yn cael eu hanwybyddu ac yn derbyn ychydig o sylw pan maen nhw'n datgan eu pryderon.

Fel Comisiynydd, fy swyddogaeth i yw sefyll a siarad ar ran pobl hŷn, er mwyn sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed, yn cael eu gwrando ac yn cael eu gweithredu. Dyna pam, ym mis Chwefror, y cyhoeddais fy adroddiad 'Pwysigrwydd ac Effaith Gwasanaethau Cymunedol yng Nghymru', sydd, gyda lleisiau pobl hŷn yn ganolbwynt iddo, yn gwneud achos cryf er mwyn gwarchod ein gwasanaethau cymunedol, a ddisgrifiwyd gan lawer fel 'hanfodion'.

Ond yn ogystal, fy swyddogaeth i fel Comisiynydd yw grymuso pobl hŷn, i'w cefnogi fel y gallan nhw gael sylw a bod wedi'u hymglymu'n llawn drwy'r broses gwneud penderfyniadau.

Dyna pam yr wyf i wedi datblygu'r Pecyn Cymorth hwn, sy'n darparu amrediad eang o wybodaeth ynglŷn â sut y gallwch gael sylw, sut y gallwch herio penderfyniadau, a'r gefnogaeth sydd ar gael er mwyn eich helpu i wneud hyn.

Bydd pwysau cyllidol pellach ar Awdurdodau Lleol yn y blynyddoedd sydd i ddod a bydd angen gwneud llawer o benderfyniadau anodd, ond ni allwn fforddio colli'r gwasanaethau hanfodol hyn, sy'n rhoi gwerth, ystyr a phwrpas i fywydau pobl. Fel y mae fy adroddiad yn pwysleisio, bydd gwneud arbedion ariannol ar wasanaethau cymunedol yn y tymor

byr yn arwain at fwy o bwysau ariannol ar wasanaethau statudol yn y tymor canolig i'r hirdymor.

Mae angen i Awdurdodau Lleol sicrhau bod ffyrdd newydd a dyfeisgar o gyflawni'r gwasanaethau hyn yn cael eu harchwilio a bod lleisiau pobl hŷn, sydd mewn lle da i ystyried pa agweddau a fydd yn effeithiol, yn gorfod bod wrth galon hyn.

Ochr yn ochr â'r Pecyn Cymorth hwn, rydw i wedi cyhoeddi Canllawiau ffurfiol yn ogystal ar ymgysylltu ac ymgynghori ag Awdurdodau Lleol, yn eu hatgoffa o'u dyletswyddau i gyfathrebu gyda chi, gweithio gyda chi ac, yn bwysicach, gwrando arnoch chi. Gellir gweld y Canllawiau hyn yn Atodiad Ch ac ar fy ngwefan: http://www.olderpeoplewales.com/wl/Home.aspx

Mae'r Pecyn Cymorth hwn wedi cael ei gyhoeddi fel offeryn ymarferol i helpu pobl hŷn sicrhau bod eu barn yn cael ei glywed gan eu Hawdurdodau Lleol, a bod eu barn yn cael ei adlewyrchu'n llawn mewn unrhyw newidiadau sy'n digwydd i wasanaethau cymunedol drwy Gymru.

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cyd-destun

Drwy Gymru, mae Awdurdodau Lleol yn gwneud penderfyniadau gwario mewn perthynas â gwasanaethau cymunedol allweddol fel bysiau cyhoeddus, toiledau, canolfannau cymunedol a chanolfannau dydd, llyfrgelloedd a chanolfannau dysgu gydol oes. Mae pobl hŷn yn tynnu sylw'r Comisiynydd yn gyson at bwysigrwydd y gwasanaethau cymunedol hyn, gan godi pryderon ynglŷn â'r effaith y mae'r golled neu'r lleihad o'r rhain yn ei gael, neu bydd yn ei gael, ar eu bywydau.

O ystyried y rhagolygon ariannol ar gyfer llywodraeth leol yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod, disgwylir y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd pellach ar ddyfodol y gwasanaethau cymunedol am nifer o flynyddoedd i ddod.

Mae'r Pecyn Cymorth ar gyfer pobl hŷn nid yn unig yn ategu adroddiad Comisiynydd y Gwasanaethau Cymunedol ('Pwysigrwydd ac Effaith Gwasanaethau Cymunedol yng Nghymru'), a gyhoeddwyd ym mis Chwefror, ond yn ogystal y blaenoriaethau canlynol yn ei Fframwaith Gweithredu 2013-17[1]:

- Sefydlu lles pobl hŷn wrth galon gwasanaethau cyhoeddus
- Gwarchod a gwella gwasanaethau cymunedol, cyfleusterau a seilwaith
- Ymdrin â rhagfarn, anghydraddoldeb a gwahaniaethu

Tra bod y Comisiynydd yn cydnabod y pwysau cyllidebol sydd wedi'i roi ar Awdurdodau Lleol, mae'n rhaid i bobl hŷn allu parhau i gael mynediad at wasanaethau cymunedol. Mae'n hanfodol nad yw gwasanaethau cymunedol yn cael eu gweld fel costau dewisol, ond fel yr asedau cymunedol hanfodol hynny yr ydyn nhw.

Mae'r asedau cymunedol hyn yn gyfannol i gyflawni agendâu polisi sy'n ymddangos yng Nghymru, fel atal, canolbwyntio ar y dinesydd a gwydnwch cymunedol. Bydd yr agendâu newydd hyn yn cael eu tanseilio'n sylweddol wrth golli'r gwasanaethau allweddol hyn.

Fel y pwysleisiwyd gan y Comisiynydd yn ei hadroddiad, mae gan bobl hŷn gyfoeth o wybodaeth a phrofiad ynglŷn â gwasanaethau cymunedol. Fel defnyddwyr aml o wasanaethau cymunedol, mae'n rhaid i bobl hŷn fod yn bartneriaid mewn gwneud penderfyniadau ynglŷn â dyfodol gwasanaethau cymunedol a'u bod wedi'u hymglymu a'u hymgynghori yn llawn yn y cynllunio,

1 http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Fframwaith_Gweithredu_1.sflb.ashx

datblygu a chyflawni gwasanaethau, cyfleusterau a seilwaith yn y gymuned.

Gall ymgysylltu uniongyrchol gyda phobl hŷn ac archwilio amrediad eang a dyfeisgar o brosesau partneriaeth arwain at ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer pobl hŷn a'r sector cyhoeddus fel ei gilydd. Gyda bron i 800,000 o bobl sy'n 60 oed neu'n hŷn yng Nghymru, a'r disgwyl y bydd dros filiwn o bobl yn y grŵp oedran yma yn ystod yr ugain mlynedd nesaf, ni ddylai pobl hŷn fod yn ôl-ystyriaeth wrth gynllunio cymunedol.

Yn y dyfodol, nid oes rhaid i newidiadau i wasanaethau cymunedol lleol, cyfleusterau a seilwaith fynd ymlaen heb ymgysylltu effeithiol, ymgynghori cywir a dadansoddiad llawn a chadarn o'r effaith y bydd y rhain yn eu cael ar les pobl hŷn, gyda chynlluniau effeithiol yn cael eu rhoi ar waith er mwyn lliniaru'r effaith hon. Ymhellach, mae'n ofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru gysylltiedig.

Pa gynlluniau sydd gan fy Awdurdod Lleol?

Mae eich Awdurdod Lleol yn cynhyrchu llawer iawn o wybodaeth a fydd yn eich cynorthwyo i ddarganfod beth yw eich blaenoriaethau, pa benderfyniadau sydd ar y gweill a sut y mae'r awdurdod yn gweithio[2] [3]. Mae'r peth o'r wybodaeth hon ynglŷn â blaenoriaethau a chynlluniau cyffredinol yr Awdurdod Lleol, gall rhywfaint fod ynglŷn â gwasanaeth arfaethedig penodol neu newidiadau cyllid. Er enghraifft:

- Mae'r **cyfansoddiad** yn amlinellu sut mae'r penderfyniadau yn cael eu gwneud
- Mae'r **Rheolau Sefydlog** yn dweud wrthych pryd fydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal
- Mae'r **Blaen-gynllun** yn amlinellu'r penderfyniadau allweddol y bydd swyddogion a chynghorwyr yn eu cymryd dros y pedwar mis sydd i ddod. Maen nhw'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â pha bryd y bydd y cabinet yn cyfarfod a pha bryd y bydd canlyniadau pwyllgorau craffu yn cael eu hystyried
- Mae **Agendâu a chofnodion** cyfarfodydd yn dweud wrthych beth fydd neu beth sydd wedi cael ei drafod yn y cyfarfod a phwy ddywedodd beth
- Canlyniadau **ymgynghoriadau** lleol a phwyllgorau craffu. Gallwch gael mynediad at wybodaeth ar graffu ffurfiol ac unrhyw gytundebau ar gynnig (pryd a chan bwy)
- **Adroddiadau**, **strategaeth** a **dogfennau polisi** adrannol
- Mae **Cynlluniau Integredig Sengl** yn cael eu cynhyrchu gan Fyrddau Gwasanaeth Lleol (yn cynnwys Awdurdodau Lleol a phartneriaid allweddol eraill) er mwyn ymdrin â materion lles economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yn ardaloedd yr Awdurdod Lleol

2 http://www.sense.org.uk/content/lobbying-local-authorities
3 http://www.ctc.org.uk/local-campaigners/ctc-local-campaigners-information-kit/working-local-government/lobbying-local-coun

Pa wybodaeth a allaf ofyn amdani?

Mae'r holl wybodaeth hon ar gael wrth ofyn amdano oddi wrth eich Awdurdod Lleol. **Gofynnwch i'ch Awdurdod Lleol (gweler Atodiad A am y manylion cyswllt) am yr holl wybodaeth ar y cynnig gwasanaeth cymunedol**. Dylai eich Awdurdod Lleol allu gwneud y canlynol ar gael i chi mewn perthynas â newid gwasanaeth cymunedol arfaethedig) gall y fformat amrywio o un Awdurdod Lleol i'r llall):

- Natur y newid arfaethedig a chynlluniau amgen
- Effaith y cynnig ar ddinasyddion, yn cynnwys pobl hŷn
- Yr arbedion ariannol arfaethedig
- Sut y gall pobl hŷn ddylanwadu ar y cynnig a'r amserlenni

Gofynnwch i'ch Awdurdod Lleol am yr **asesiad effaith** (sy'n mesur effaith y penderfyniad ar bobl gyda nodweddion gwarchodedig) sy'n gysylltiedig â'r cynnig.

Os na wneir y wybodaeth hon ar gael i chi, gallwch ofyn amdani o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth (RhG)[4] yn ymdrin â mynediad at wybodaeth swyddogol ac yn rhoi'r hawl i unigolion neu sefydliadau ofyn am wybodaeth oddi wrth unrhyw awdurdod cyhoeddus. Mae Deddf RhG yn gofyn i'r holl awdurdodau cyhoeddus fabwysiadu a chynnal cynllun cyhoeddi sy'n amlinellu'r holl wybodaeth sydd gan y Cyngor ac sy'n cael ei gyhoeddi fel mater o drefn. Gellir gwneud ceisiadau RhG i'r Swyddog Rhyddid Gwybodaeth yn eich Awdurdod Lleol. Gellir gwneud neu weld ceisiadau RhG yn ogystal ar wefan What Do They Know? (https://www.whatdotheyknow.com/cy).

4 http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/36/contents

Beth ddylai fy Awdurdod Lleol fod yn ei wneud?

Mae'n hanfodol bod eich Awdurdod Lleol yn darparu cyfleoedd digonol ar gyfer ymgynghoriad llawn ac ystyrlon gyda chi ac eraill er mwyn trafod y cynnig a'r effaith ar eich bywyd wrth i'r gwasanaeth cymunedol allweddol leihau neu gau.

Gall Awdurdodau Lleol gynnig digwyddiadau ymgynghori arbennig. Os na fyddan nhw, gallwch ofyn i'r rhain ddigwydd er mwyn mynegi eich pryderon ynglŷn â chynnig. Dylai unrhyw ymgysylltu / ymgynghori fod yn unol ag Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu yng Nghymru:

Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu yng Nghymru

Datblygwyd yr egwyddorion hyn gan Cyfranogaeth Cymru ac fe'u hardystiwyd gan y Prif Weinidog ar ran Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2011.

1. Mae ymgysylltu wedi'i ddylunio'n effeithiol er mwyn gwneud gwahaniaeth

Mae ymgysylltu yn rhoi gwir gyfle i ddylanwadu ar bolisi, cynllunio a chyflawni'r gwasanaeth o gyfnod cynnar.

2. Annog a galluogi pawb sy'n cael eu heffeithio i fod ynghlwm, os ydyn nhw'n dymuno

Mae'r bobl sydd wedi cael eu heffeithio gan fater neu newid yn cael eu cynnwys mewn cyfleoedd er mwyn ymgysylltu fel unigolyn neu fel rhan o grŵp neu gymuned, gyda'u barn yn cael ei pharchu a'i gwerthfawrogi fel ei gilydd.

3. Mae ymgysylltu wedi'i gynllunio a'i gyflawni mewn modd amserol a phriodol

Mae'r broses ymgysylltu yn eglur, wedi'i chyfathrebu i bawb mewn ffordd sy'n hawdd ei deall ac o fewn amserlen resymol a bod y dull/iau mwyaf addas yn cael eu defnyddio ar gyfer y rhai hynny sydd ynghlwm.

4. Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol

Dylai sefydliadau gyfathrebu gyda'i gilydd a gweithio gyda'i gilydd lle bo'n bosibl er mwyn sicrhau bod amser pobl yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon.

4. Bydd y wybodaeth a ddarperir yn rhydd o jargon, yn addas ac yn ddealladwy

Mae pobl mewn sefyllfa dda i gymryd rhan yn y broses ymgysylltu oherwydd bod ganddyn nhw fynediad hawdd at wybodaeth berthnasol sydd wedi'i theilwra i gwrdd â'u hanghenion.

6. Gwneud hi'n haws i bobl gymryd rhan

Gall bobl ymgysylltu'n hawdd oherwydd bod unrhyw rwystrau ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl yn cael eu nodi a'u hymdrin.

7. Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol

Dylai prosesau ymgysylltu geisio datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder yr holl gyfranogwyr.

8. Mae ymgysylltu yn derbyn yr adnoddau a'r gefnogaeth gywir i fod yn effeithiol

Darperir hyfforddiant, canllawiau a chefnogaeth briodol er mwyn galluogi'r holl gyfranogwyr i ymgysylltu'n effeithiol, yn cynnwys cyfranogwyr cymunedol a staff.

9. Mae pobl yn cael gwybod effaith eu cyfraniad

Rhoddir adborth amserol i'r holl gyfranogwyr ynglŷn â'r safbwyntiau yr oedden nhw wedi'u mynegi neu'r penderfyniadau neu'r camau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad; dylai'r dulliau a ffurf yr adborth ystyried beth sy'n well gan y cyfranogwyr.

10. Dysgu a rhannu gwersi er mwyn gwella'r broses o ymgysylltu

Dylai profiad pobl o'r broses ymgysylltu gael ei fonitro a'i werthuso er mwyn mesur ei llwyddiant wrth ymgysylltu â phobl ac effeithiolrwydd eu cyfranogiad; dylid rhannu gwersi a'u defnyddio mewn ymgysylltiadau yn y dyfodol.

.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn mynnu bod Awdurdodau Lleol gymryd camau i sicrhau bod safbwyntiau pobl hŷn ac eraill gyda nodweddion gwarchodedig yn cael eu clywed.

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb[5] i ymgysylltu â'r rhai hynny sydd â nodweddion gwarchodedig (yn cynnwys oed) ac i ymgymryd ag Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) wrth ddatblygu neu adolygu polisïau. Mae gan awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru ddyletswydd gyfreithiol i asesu eu holl swyddogaethau, polisïau a threfniadaethau arfaethedig er mwyn asesu eu heffaith ar wahanol grwpiau. Mae yna ofyniad cyfreithiol ar gyrff cyhoeddus i gyhoeddi'r AEG pan yr adnabyddir effaith sylweddol ar grŵp penodol.

Y Ddeddf Gydraddoldeb yw'r darn allweddol o ddeddfwriaeth y gellir herio cyfreithlondeb lleihau gwasanaethau drwyddi. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn golygu bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol ddiddymu gwahaniaethu ac erledigaeth, cynyddu cyfle cyfartal rhwng pobl, a meithrin perthnasau da rhwng unigolion.

Fodd bynnag, darganfu adolygiad diweddar o AEGau yng Nghymru fod angen gwneud polisïau yn fwy tryloyw ac yn seiliedig ar dystiolaeth, mae angen i fwy o AEGau gael eu cyhoeddi ar wefannau cyhoeddus, a dylai AEGau ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau[6].

Gwybodaeth bellach:

- Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (Ffôn: 0808 800 0082 / www.equalityhumanrights.com/cy/hafan) yn darparu gwybodaeth bellach ar AEGau a'r gwaharddiad ar wahaniaethu ar sail oed mewn gwasanaethau, swyddogaethau a chymdeithasau (mewn grym ers Hydref 2012).
- Cafodd Pecyn Cymorth Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ei gyhoeddi gan Ganolfan GIG ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn Awst 2012. Cysylltwch â 01443 233333 i gael copi neu ewch i http://www.cydraddoldebhawliaudynol.wales.nhs.uk/hafan

5 http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents
6 http://www.wlga.gov.uk/cyhoeddiadau-cydraddoldeb/adroddiad-or-modd-y-defnyddir-asesiadau-effaith-ar-gyfrifoldeb-yn-y-sector-cyhoeddus

Beth allaf ei wneud os nad wyf yn fodlon?

Mae llawer o ffyrdd y gallwch ddylanwadu ar y cynigion sy'n cael eu rhoi gerbron eich Awdurdod Lleol.

Os ydych yn pryderu ynglŷn â chynnig i leihau neu gau eich gwasanaeth cymunedol lleol, **peidiwch ag oedi**. Paratowch gynllun a thrafodwch eich pryderon gyda ffrindiau, teuluoedd, cymdogion a'ch grwpiau cymunedau lleol. Cadwch gofnod o'ch cynnydd, yn cynnwys eich gohebiaeth gydag Awdurdodau Lleol a chysylltwch ag unigolion neu sefydliadau eraill.

- Cysylltwch â'ch **cynghorydd lleol** a/neu eich **Eiriolwr dros Bobl Hŷn** er mwyn amlinellu eich safbwyntiau a'ch pryderon ynglŷn â'r gwasanaethau cymunedol sy'n bwysig i chi (gellir darganfod manylion cyswllt yng nghronfa ddata gwybodaeth yr Awdurdodau Lleol ar gyfer gwasanaethau cymunedol).
- Gallech ysgrifennu at eich cynghorydd a/neu'r aelod Cabinet a/neu'r Arweinydd Cyngor sy'n gyfrifol er mwyn mynegi eich pryderon ac esbonio effaith y penderfyniad hwn ar eich bywyd (gellir canfod llythyr enghreifftiol yn Atodiad C).
- Yn ogystal, gallech ofyn am gyfarfod gyda'ch cynghorydd. Mae cynghorwyr yn cynnal sesiynau galw i mewn yn rheolaidd, fel arfer bob mis, sy'n cael eu galw'n gymorthfeydd. Fodd bynnag, gan y bydd angen i gynghorwyr gwrdd â nifer o bobl, argymhellir eich bod yn trefnu cyfarfod ymlaen llaw er mwyn trafod y cynnig a'ch pryderon yn llawn.
- Gan fod cynghorwyr yn aml yn bobl brysur, ceisiwch gadw llythyrau atyn nhw a chyfarfodydd gyda nhw, yn eglur, byr a chryno. Meddyliwch beth yw eich pwyntiau pwysig a cheisiwch fod yn benodol ynglŷn â beth rydych chi eisiau iddyn nhw ei wneud.
- Yn ogystal, gallech gysylltu â'ch cynghorydd tref a chymuned i esbonio eich sefyllfa a'ch pryderon (mae'r manylion cyswllt ar gael drwy Un Llais Cymru (http://www.onevoicewales.org.uk/un-llais-cymru?set-language=cy, Ffôn: 01269 595400).

Yn ogystal, gallech gysylltu â'ch **Aelod Cynulliad** lleol a/neu'ch **Aelod Seneddol** er mwyn mynegi eich pryderon ynghylch gwasanaethau cymunedol:

- Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Ffôn 0845 010 5500 am wybodaeth gyswllt neu ewch i https://www.assemblywales.org/cy/memhome.htm
- Yn ogystal, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol grŵp trawsbleidiol ar bobl hŷn a heneiddio, lle mae materion allweddol fel gwasanaethau cymunedol yn cael eu trafod yn aml[7].
- Aelodau Seneddol – Ffôn 020 7219 4272 am wybodaeth gyswllt new ewch i http://www.parliament.uk/mps-lords-and-offices/mps/.
- Yn ogystal, mae Write to Them yn eich caniatáu i gysylltu â'ch cynghorydd lleol, AC neu AS a mynegi eich safbwyntiau a'ch pryderon ynglŷn â gwasanaethau cymunedol drwy gyfrwng y ffurflen ar-lein (https://www.writetothem.com/).
- Gallai cysylltu gyda'ch **papur newydd lleol/rhanbarthol** fod yn ffordd ddefnyddiol i dynnu sylw at eich pryderon ynglŷn â'r cynnig i gau/lleihau eich gwasanaeth cymunedol a derbyn cefnogaeth ar gyfer eich ymdrechion i warchod y gwasanaeth gymaint ag sy'n bosibl.
- Mae yna elusennau, grwpiau ymgyrchu/lobïo, sefydliadau a rhwydweithiau a allai eich helpu i ddylanwadu ar benderfyniadau'r Awdurdod Lleol a thynnu sylw at eich pryderon. Yn ogystal, mae yna sefydliadau eraill a all amlygu ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaeth cymunedol a rhoi cyngor a gwybodaeth i chi ynglŷn â'r gwasanaethau sydd ar gael lle rydych chi'n byw (gellir gweld gwybodaeth bellach a manylion cyswllt yn Atodiad B).

7 http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgOutsideBodyDetails.aspx?ID=259

Pa gefnogaeth sydd ar gael? Pwy all fy helpu?

Mae gan eich Awdurdod Lleol ei **Eiriolwr dros Bobl Hŷn**, **cydlynydd Strategaeth Pobl Hŷn**, a **Fforwm 50+**. Gallai'r unigolion a'r grwpiau hyn eich helpu gyda'ch ymdrechion i warchod gwasanaeth cymunedol:

Gall Eiriolwyr dros Bobl Hŷn[8] (cynghorydd/cynghorwyr gyda phob Awdurdod Lleol) helpu i sicrhau, beth bynnag yw'r broblem, bod anghenion, dymuniadau a'r hyn sydd yn well gan bobl hŷn yn cael eu hystyried yn llawn wrth gynllunio a gweithredu polisi a gwasanaethau. Mae'r Eiriolwyr hyn yn helpu i sicrhau cysylltiad, cyfranogiad ac ymgysylltiad pobl hŷn wrth gynllunio ac adolygu holl agweddau gwaith Awdurdod Lleol.

Swyddogaeth **cydlynwyr Strategaeth** yw symud Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Hŷn 2013-2023[9] a datblygu dulliau newydd er mwyn datblygu polisi a gwasanaethau mewn perthynas ag adrannau ac asiantaethau eraill, yn cynnwys Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau GIG, sefydliadau gwirfoddol lleol a chyda phobl hŷn.

Mae **Fforymau 50+** yn nodi materion allweddol i bobl 50 oed neu'n hŷn yn eu hardaloedd eu hunain ac yn gweithio tuag at ymdrin â nhw. Mae'r Fforymau yn helpu i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn well lle i fyw ar gyfer pobl hŷn.

Cysylltwch â'ch Awdurdod Lleol er mwyn derbyn manylion cyswllt a gwybodaeth bellach os gwelwch yn dda (gellir gweld y manylion cyswllt yn Atodiad A).

8 http://www.wlga.gov.uk/hyrwyddwyr-drod-bobl-hyn/
9 http://wales.gov.uk/docs/dhss/publications/130521olderpeoplestrategycy.pdf

Mae'r penderfyniad wedi cael ei wneud. Beth arall allaf i ei wneud? A oes yna unrhyw ffyrdd eraill?

Yn ei hadroddiad, mae'r Comisiynydd yn awgrymu nifer o ffyrdd amgen ac arloesol er mwyn cyflawni gwasanaethau cymdeithasol nad ydyn nhw'n gosod beichiau ariannol ychwanegol ar Awdurdodau Lleol neu drosglwyddo cyfrifoldebau oddi wrth Awdurdodau Lleol:

Trosglwyddo Asedau Cymunedol[10]

Dyma'r trosglwyddiad o dir ac adeiladau a danddefnyddir o'r sector cyhoeddus i berchnogaeth a rheolaeth y gymuned. Mae'r newid mewn perchnogaeth yn rhoi grymoedd cryfach i sefydliadau yn y sectorau cymunedol a gwirfoddol, mentrau cymunedol a chymdeithasol, ac unigolion sy'n ystyried ffurfio grŵp dielw preifat er mwyn bod o fudd i'w cymdogaeth.

Cynghorau Tref a Chymuned

Mae 735 o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru, sy'n cynrychioli'r haen o lywodraeth sydd agosaf at y bobl. Maen nhw'n cynnwys oddeutu 94% o'r arwynebedd tir a 70% o boblogaeth Cymru. Mae Un Llais Cymru, y corff sy'n cynrychioli cynghorau tref a chymuned, wedi gofyn am drosglwyddo cynyddol o lawer o wasanaethau a chyfleusterau cymunedol, fel llyfrgelloedd, gwasanaethau ieuenctid a gwasanaethau hamdden o Awdurdodau Lleol i gynghorau tref a chymuned[11].

Mentrau Cymdeithasol[12]

Mae'r rhain yn fusnesau gydag amcanion cymdeithasol yn bennaf. Mae'r elw gan fwyaf neu'n gyfan gwbl yn cael ei ailfuddsoddi yn y busnes neu yn y gymuned, yn hytrach na mwyhau'r elw ar gyfer rhanddeiliaid a pherchnogion. Yn ogystal, mae mentrau cymdeithasol yn cystadlu yn y farchnad ac mae angen iddyn nhw gael eu rhedeg yn dda er mwyn gwneud arian a chyflawni eu nodau cymdeithasol. Gallan nhw amrywio o siopau bach mewn pentrefi o dan berchnogaeth y gymuned i sefydliadau mawr sy'n cyflawni gwasanaethau cyhoeddus.

10 http://mycommunityrights.org.uk/community-asset-transfer/
11 http://wales.gov.uk/docs/dpsp/publications/psgd/140120-psgd-full-report-cyv2.pdf
12 http://business.wales.gov.uk/cy/tyfu-busnes/cy-welsh-government-support-1/cymorth-ar-gyfer-menter-gymdeithasol

Dewisiadau Cyfreithiol

Mae dewisiadau cyfreithiol a meysydd eraill yn ogystal i herio penderfyniad a wnaed gan Awdurdod Lleol neu er mwyn sicrhau bod Awdurdod Lleol yn cydymffurfio'n llawn â'i oblygiadau cyfreithiol:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru[13]

Mae gan yr Ombwdsmon rymoedd cyfreithiol er mwyn ymchwilio i gwynion ynglŷn â gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Gall yr Ombwdsmon ymchwilio i gwynion eich bod wedi cael eich trin yn annheg neu eich bod wedi derbyn gwasanaeth gwael drwy ryw fethiant ar ran y corff a oedd yn ei ddarparu. Fodd bynnag, os yw'r Awdurdod Lleol wedi cyrraedd ei benderfyniad yn gywir, ni all yr Ombwdsmon ymchwilio i'ch cwyn. Gall yr Ombwdsmon yn ogystal ymchwilio i gwynion lle mae cynghorwyr wedi torri côd ymddygiad eu Hawdurdod Lleol. (https://www.ombudsman-wales.org.uk/cy-GB, Rhif cyswllt: 0300 790 0203).

Adolygiad Barnwrol[14]

Os ydych wedi cyrraedd diwedd y broses hon a'ch bod yn parhau'n anfodlon gyda'r ffordd y cafodd y penderfyniad ei gyrraedd, yna Adolygiad Barnwrol yw'r 'feddyginiaeth olaf un'. Math o achos llys yw Adolygiad Barnwrol lle mae barnwr yn adolygu cyfreithlondeb penderfyniad neu gam gweithredu a wnaed gan gorff cyhoeddus. Mae'r adolygiadau hyn yn her i'r ffordd y gwnaed y penderfyniad, yn hytrach na'r hyn a oedd yn gywir ac yn anghywir yn y canlyniad a gyrhaeddwyd.

Ni fydd y llys yn cyfnewid yr hyn y mae'n ei feddwl yw'r penderfyniad cywir. Gall hyn olygu y bydd y corff cyhoeddus yn gallu gwneud yr un penderfyniad eto, cyn belled â'i fod yn gwneud hynny mewn ffordd gyfreithiol. Petaech yn dymuno dadlau bod y penderfyniad yn anghywir, efallai nad Adolygiad Barnwrol sy'n addas ar eich cyfer chi. Mae meddyginiaethau amgen, fel apelio yn erbyn y penderfyniad mewn llys uwch, er enghraifft.

Ceir enghreifftiau[15] lle cyhoeddwyd Adolygiad Barnwrol yn erbyn Awdurdod Lleol ar sail bod:

- Ymgynghoriad cyn penderfyniad yn anghyfreithlon: roedd penderfyniadau eisoes wedi cael eu gwneud cyn i'r ymgynghoriad ddechrau;

13 https://www.ombudsman-wales.org.uk/cy-GB.aspx
14 http://www.judiciary.gov.uk/you-and-the-judiciary/judicial-review
15 http://savelincslibraries.org.uk/2014/02/10/high-court-proceedings-begun-challenging-the-decision-by-lincolnshire-county-council-to-cut-library-services/

- Methiant gan Awdurdod Lleol i roi sylw dyledus o'i oblygiadau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- Methiant gan yr Awdurdod Lleol i atal niwed a achoswyd i'r rhai hynny gyda nodweddion gwarchodedig, yn cynnwys pobl hŷn, o ganlyniad i'w cynlluniau, er gwaethaf nodi'r niwed posibl y gallai eu cynlluniau eu hachosi.

Deg Cwestiwn Allweddol a Rhestr Gyfeirio

- A oes gan fy Awdurdod Lleol fframwaith strategol cynhwysfawr ar gyfer pobl hŷn sy'n cydnabod yr angen ar gyfer gwasanaethau cymunedol hanfodol, yn allweddol ar gyfer fy iechyd, fy annibyniaeth a'm lles?
- A yw pobl hŷn yn cael eu cynnwys yn holl agweddau gwaith yr Awdurdod Lleol, yn cynnwys cynllunio strategol, monitro ansawdd a holl gamau'r broses gwneud penderfyniadau ar gynigion gwasanaethau cymunedol?
- A yw fy Awdurdod Lleol yn gweithio'n effeithiol gyda rhwydweithiau pobl hŷn, sefydliadau a grwpiau lobïo er mwyn ystyried ffyrdd o gyflawni gwasanaethau cymunedol cost-effeithiol?
- A oes gan fy Awdurdod Lleol ddull cynhwysfawr ar gyfer ymdrin â gwahaniaethu ar sail oed wrth wneud penderfyniadau allweddol am wasanaethau cymunedol sy'n bwysig i mi?
- A yw fy Awdurdod Lleol yn darparu gwybodaeth gydgysylltiedig, hygyrch a chynhwysfawr ar y cynnig i gau/leihau fy ngwasanaeth cymunedol, ac a ydw i'n teimlo fy mod wedi cael fy hysbysu'n dda?
- A yw anghenion iechyd a lles pobl hŷn yn cael eu hystyried yn llawn gan yr Awdurdod Lleol wrth gynnig newidiadau i wasanaethau cymunedol?
- A yw fy Awdurdod Lleol yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth ddigonol er mwyn fy helpu i ddeall y ffyrdd amgen i'r gwasanaeth cymunedol sy'n cael ei chlustnodi ar gyfer cau/lleihau, er mwyn caniatáu i mi fynd ymlaen gyda fy mywyd beunyddiol?
- A all fy Awdurdod Lleol ddangos yn llawn bod anghenion pobl hŷn wedi cael eu hystyried a'u cydnabod pan wnaed y penderfyniad i newid y gwasanaeth cymunedol allweddol hwn?

- I ba raddau fydd fy Awdurdod Lleol yn fy nghefnogi i petai penderfyniad yn cael ei wneud i gau/leihau'r gwasanaeth cymunedol hanfodol hwn? A yw pobl hŷn wedi cael eu heffeithio yn anghymesur gan y penderfyniad hwn?
- I ba raddau y mae cynlluniau fy Awdurdod Lleol i leihau/gau darpariaeth gwasanaeth cymunedol yn effeithio ar eu hymrwymiad i gefnogi ac edrych ar ôl pobl hŷn a'u hymrwymiad i ddatblygu cymunedau oed-gyfeillgar drwy Ddatganiad Dulyn[16]?

Rhestr Gyfeirio

	Ydi/Nac ydi
A yw'r Awdurdod Lleol wedi ymateb i 'm llythyr/galwad?	
A yw'r Awdurdod Lleol wedi darparu eglurhad digonol ar gyfer y cynnig i leihau/gau'r gwasanaeth cymunedol?	
A yw'r Awdurdod Lleol wedi esbonio sut y mae fy safbwyntiau/ pryderon yn cael eu symud ymlaen?	
A yw'r Awdurdod Lleol wedi fy nghynghori ynghylch pwy all helpu i symud fy safbwyntiau/mhryderon ymlaen?	
A ydw i wedi cael cynnig ymgynghoriad/cyfarfod wyneb yn wyneb er mwyn mynegi fy safbwyntiau/mhryderon?	
A yw'r Awdurdod Lleol wedi cynnal asesiad effaith er mwyn mesur effaith y cynnig hwn ar bobl hŷn?	
Beth bynnag yw'r penderfyniad terfynol, a ydw i'n fodlon bod fy safbwyntiau/mhryderon wedi cael eu hystyried yn llawn, wedi'u deall ac wedi'u derbyn gan yr Awdurdod Lleol?	

16 http://agefriendlycounties.com/images/uploads/downloads/Dublin_Declaration_2013.pdf

Atodiad A: Cysylltu â'ch Awdurdod Lleol

Awdurdod Lleol	Rhif ffôn	E-bost
CS Ynys Môn Swyddfeydd y Sir Llangefni Ynys Môn LL77 7TW	01248 750057	cyfathrebu@ynysmon.gov.uk
CBS Blaenau Gwent Swyddfeydd Bwrdeistrefol Canolfan Dinesig Glyn Ebwy NP23 6XB	01495 311556	info@blaenau-gwent.gov.uk
CBS Pen-y-bont ar Ogwr Y Swyddfeydd Dinesig Stryd yr Angel Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB	01656 643643	talktous@bridgend.gov.uk
CBS Caerffili Tŷ Penallta Ystrad Mynach Hengoed CF82 7SF	01443 815588	info@caerphilly.gov.uk
CS Caerdydd Neuadd y Sir Glanfa'r Iwerydd Caerdydd CF10 4UW	02920 872087	C2C@cardiff.gov.uk

Awdurdod Lleol	Rhif ffôn	E-bost
CS Sir Gâr Neuadd y Sir Caerfyrddin Sir Gaerfyrddin SA31 1JP	01267 234567	galw@sirgar.gov.uk
CS Ceredigion Penmorfa Aberaeron Ceredigion SA46 0PA	01545 570881	reception@ceredigion.gov.uk
CBS Conwy Bodlondeb Conwy LL32 8DU	01492 574000	gwybodaeth@conwy.gov.uk
CS Ddinbych Neuadd y Sir Ffordd Wynnstay Rhuthun Sir Ddinbych LL15 1YN	01824 706101	gwasanaethcwsmer@sirddinbych.gov.uk
CS Y Fflint Neuadd y Sir Yr Wyddgrug Sir y Fflint CH7 6NB	01352 752121	gwasanaethaucwsmer@flintshire.gov.uk

Awdurdod Lleol	Rhif ffôn	E-bost
CS Gwynedd Swyddfeydd y Cyngor Stryd y Jêl Caernarfon Gwynedd LL55 1SH	01766 771000	ymholiadau@gwynedd.gov.uk
CBS Merthyr Tudful Stryd y Castell Merthyr Tudful CF47 8AN	01685 725000	customer.care@merthyr.gov.uk
CS Fynwy Blwch SP 106 Cil-y-coed Sir Fynwy NP26 9AN	01633 644644	contact@monmouthshire.gov.uk
CBS Castell-nedd Port Talbot Canolfan Ddinesig Port Talbot SA13 1PJ	01639 686868	contactus@npt.gov.uk
CS Casnewydd Canolfan Ddinesig Casnewydd NP20 4UR	01633 656656	info@newport.gov.uk

Awdurdod Lleol	Rhif ffôn	E-bost
CS Penfro Neuadd y Sir Hwlffordd Sir Benfro SA61 1TP	01437 764551	enquiries@pembrokeshire.gov.uk
CS Powys Neuadd y Sir Llandrindod Powys LD1 5LG	01597 827460	customer@powys.gov.uk
CBS Rhondda Cynon Taf Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian Cwm Clydach Tonypandy CF40 2XX	01443 425005	customerservices@rctcbc.gov.uk
DS Abertawe, Canolfan Ddinesig Heol Ystumllwynarth Abertawe SA1 3SN	01792 636000	cyswllt@abertawe.gov.uk
CBS Torfaen Y Ganolfan Ddinesig Pont-y-pŵl Torfaen NP4 6YB	01495 762200	your.call@torfaen.gov.uk

Awdurdod Lleol	Rhif ffôn	E-bost
Cyngor Bro Morgannwg Swyddfeydd Dinesig Heol Holton Y Barri Bro Morgannwg CF63 4RU	01446 700111	C1V@valeofglamorgan.gov.uk
CBS Wrecsam Neuadd y Dref Wrecsam LL11 1AY	01978 292000	contact-us@wrexham.gov.uk

Atodiad B: Sefydliadau Gwasanaethau Cymunedol, rhwydweithiau, elusennau a grwpiau lobïo/ymgyrchu

Bysiau Cyhoeddus

Defnyddwyr Bysiau Cymru	0300 111 0001	http://bususers.org/defnyddwyr-bysiau-cymru/amdanom-ni
Cymdeithas Cludiant Cymdeithasol	01792 844290 (Abertawe) 01745 356751 (Y Rhyl)	http://www.ctauk.org/in-your-area/contact-details-cymru.aspx
Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru	0207 240 3131	http://www.cpt-uk.org/index.php

Toiledau Cyhoeddus

British Toilet Association	02891 477397	http://www.britloos.co.uk/

Llyfrgelloedd

Llyfrgelloedd Cymru	01978 298861 / 298857	http://welshlibraries.org/cy
Public Libraries News		http://www.publiclibrariesnews.com/
Community Knowledge Hub Libraries		http://libraries.communityknowledgehub.org.uk/

Canolfannau Dydd/Cymunedol

Find Me Good Care		www.scie.org.uk/findmegoodcare

Dysgu Gydol Oes

NIACE Dysgu Cymru	02920 370900	http://www.niacedc.org.uk/cy

Cyffredinol

Cynghrair Henoed Cymru	02920 431554	http://www.agealliancewales.org.uk/
Age Cymru	02920 431555	http://www.ageuk.org.uk/cymru/ Y Gyfrifiannell Gymunedol: Pa mor ystyriol i oedran yw fy nghymuned? http://www.ageuk.org.uk/cymru/get-involved/make-a-donation3/commuinty-calculator-/
Senedd Pobl Hŷn Cymru	02920 431570	http://www.welshsenateofolderpeople.com/index.htm

Atodiad C: Llythyr Enghreifftiol Gwasanaethau Cymunedol

(Newidiwch y llythyr hwn fel sy'n briodol er mwyn iddo fod yn addas ar gyfer eich amgylchiadau)

Cyfeiriad
Cyngor Sir Er Enghraifft
Xxxxxx
xxxxx
Cymru

Dyddiad

Annwyl Syr/Fadam,

Ysgrifennaf atoch ynglŷn â'r cais i leihau'r ddarpariaeth/cau fy ngwasanaeth allweddol lleol (nodwch yr enw a natur y gwasanaeth hwn). Rydw i'n pryderu'n fawr ynglŷn â'r cynnig hwn. Mae hwn yn wasanaeth cymunedol hanfodol yr wyf yn dibynnu arno i fwrw ymlaen gyda fy mywyd beunyddiol. Mae'r gwasanaeth hwn yn wasanaeth hollol anhepgor i mi ac i eraill. Heb y gwasanaeth hwn, rydw i mewn risg pellach o arwahanrwydd cymdeithasol, ac rydw i'n pryderu y bydd tynnu'r gwasanaeth hwn yn ôl yn effeithio'n ddifrifol ar fy iechyd, fy annibyniaeth a'm lles.

Er mwyn dylanwadu ar y penderfyniad ynglŷn â'r gwasanaeth hwn gymaint ag sy'n bosibl, a allwch chi fy hysbysu o'r canlynol os gwelwch yn dda:

- Y broses ymgynghori ar gyfer y penderfyniad hwn; sut y gallaf ddylanwadu ar y penderfyniad;
- Sut fydd fy safbwyntiau a'm pryderon yn cael eu symud ymlaen;
- Pwy all symud fy mhryderon ymlaen a phwy all fy helpu;
- Yr amserlen ar gyfer y broses hon.

Rydw i'n llawn ddeall y pwysau cyllidebol sy'n wynebu Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi gwerth, ystyr a diben i fy mywyd, ac mae'n hanfodol er mwyn lleihau problemau corfforol a meddyliol ymysg pobl hŷn. Mae'n wasanaeth hanfodol, nid yn unig ar gyfer pobl hŷn, ond ar gyfer eraill yn ogystal.

Petai'r gwasanaeth yn cael ei leihau neu'i gau, byddaf wedi cael fy ngwahanu oddi wrth fy nghymuned a'm cymdeithas, yn analluog i gael mynediad at wasanaethau hanfodol, yn analluog i wneud gweithgareddau sy'n cyfrannu at y gymuned, ac yn analluog i ymweld â ffrindiau neu deulu. Gall lleihau neu gau'r gwasanaeth hwn arbed costau i'r Awdurdodau Lleol yn y tymor byr. Fodd bynnag, bydd yn arwain at gostau gofal iechyd a chymdeithasol mwy i awdurdodau yn y tymor canolig i'r hirdymor.

Disgwyliaf i fy safbwyntiau gael eu hystyried yn llawn pan mae'r penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ar y gwasanaeth hanfodol hwn.

Yn gywir iawn,

Xxxxxxxxxxx

Atodiad D: Canllawiau a gyhoeddwyd o dan A.12 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006

Gorffennaf 2014

Canllawiau ymarfer gorau ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â phobl hŷn ar newidiadau i wasanaethau cymunedol yng Ng-hymru

Mae'r Canllawiau hyn wedi'u bwriadu ar gyfer Awdurdodau Lleol wrth gynnig newidiadau i wasanaethau cymunedol.

Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol roi sylw i'r Canllawiau hyn wrth gyflawni eu swyddogaethau. Bydd y Comisiynydd yn defnyddio'r canllawiau hyn fel safon yn erbyn yr hon gellir asesu'r raddfa y mae Awdurdodau Lleol yn diogelu ac yn hyrwyddo buddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Cyd-destun cyfreithiol

Comisiynydd Pobl Hŷn

Mae Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006[1] yn darparu'r Comisiynydd gydag amrediad o rymoedd i hyrwyddo a diogelu buddiannau pobl hŷn, herio gwahaniaethu ar sail oed, hyrwyddo ymarfer gorau yn y driniaeth o bobl hŷn ac adolygu'r gyfraith fel y mae hi'n effeithio ar bobl hŷn. Gall y Comisiynydd fynnu bod cyrff cyhoeddus yn atebol drwy adolygu eu camau gweithredu neu archwilio cwynion yn eu herbyn. Yn ogystal, gall gyhoeddi canllawiau ymarfer gorau a rhyddhau adroddiadau i Brif Weinidog Cymru.

Awdurdodau Lleol

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010[2] yn cynnwys dyletswydd gyffredinol, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (DCSC) newydd, a oedd yn disodli dyletswyddau ar wahân ar hil, anabledd a chydraddoldeb rhywiol. Mae'r ddyletswydd gyffredinol newydd yn cynnwys y nodweddion gwarchodedig canlynol:

1 http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/30/contents
2 http://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/uploads/Wales/PDFs/1._psed_wales_essential_guide.pdf

- Oed
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred – yn cynnwys diffyg cred

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai hynny sy'n ymgymryd â swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallan nhw gyfrannu'n gadarnhaol tuag at gymdeithas decach drwy hyrwyddo cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau beunyddiol. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori wrth gynllunio polisïau a chyflawni'r gwasanaethau a'u bod yn cael eu cadw o dan adolygiad. Bydd hyn yn cyflawni gwell canlyniadau i bawb.

Mae gofyn i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

1. ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan y Ddeddf

2. hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai hynny nad ydyn nhw

3. meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai hynny nad ydyn nhw.

Er mwyn gweithredu'r ddyletswydd gyffredinol, cymerwyd yr egwyddorion canlynol o gyfraith achosion ar y dyletswyddau cydraddoldeb blaenorol. Er mwyn cwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol, rhaid i awdurdod cyhoeddus sicrhau:

- **Gwybodaeth:** mae'r rhai hynny sy'n ymarfer ei swyddogaethau (ei staff a'i arweinyddiaeth) yn ymwybodol o ofynion y ddyletswydd. Mae cwrdd â'r ddyletswydd yn cynnwys 'dull a chyflwr meddwl ymwybodol'. Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau fod yn ymwybodol o oblygiadau'r ddyletswydd wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'u polisïau a'u hymarferion.

- **Amseroldeb:** mae'r ddyletswydd yn codi cyn a phan y mae polisi arbennig o dan ystyriaeth ac mae penderfyniad yn cael ei wneud. Ni all awdurdod cyhoeddus gwrdd â'r ddyletswydd drwy gyfiawnhau penderfyniad ar ôl iddo gael ei wneud.
- **Ystyriaeth arwyddocaol:** mae'n rhaid i dri nod y ddyletswydd gyffredinol ffurfio rhan annatod o'r broses o wneud penderfyniadau. Nid yw hyn yn ymarfer o 'dicio'r blychau' – mae'n rhaid ei ymarfer yn drylwyr, gyda meddwl agored mewn ffordd sy'n dylanwadu ar y penderfyniad terfynol.
- **Gwybodaeth ddigonol:** rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ystyried pa wybodaeth sydd ganddyn nhw yn ogystal â pha wybodaeth bellach a all fod ei angen er mwyn rhoi ystyriaeth i'r ddyletswydd gyffredinol.
- **Adolygu:** rhaid i gyrff cyhoeddus roi sylw i nodau'r ddyletswydd gyffredinol, nid yn unig pan mae polisi yn cael ei ddatblygu a'i benderfynu, ond yn ogystal pan mae'n cael ei weithredu a'i adolygu. Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ddyletswydd barhaus.
- **Peidio â dirprwyo:** Mae gofyn i unrhyw un sy'n ymarfer swyddogaethau cyhoeddus ar ran corff cyhoeddus gwrdd â'r ddyletswydd. Mae hyn oherwydd bod y ddyletswydd yn aros gyda'r awdurdod cyhoeddus, hyd yn oed os ydyn nhw wedi dirprwyo unrhyw swyddogaethau i sefydliad arall.

Dyletswyddau penodol yng Nghymru

Pwrpas cyffredinol y dyletswyddau penodol yng Nghymru yw helpu cyrff rhestredig wrth berfformio eu dyletswydd gyffredinol ac i gynorthwyo tryloywder. Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru wedi'u hamlinellu yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn cynnwys:

- Amcanion
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltu
- Asesu effaith
- Gwybodaeth ar gydraddoldeb
- Gwybodaeth ar gyflogaeth

- Gwahaniaethau tâl
- Hyfforddi staff
- Caffael
- Adrodd blynyddol
- Cyhoeddi
- Adrodd gan Weinidogion Cymru
- Adolygiad
- Hygyrchedd

Ymgysylltu

Mae'n rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gynnwys pobl y mae'n eu hystyried sy'n cynrychioli un neu fwy o'r grwpiau gwarchodedig ac sydd â diddordeb mewn sut mae awdurdod yn ymgymryd â'i swyddogaethau.

Gall corff rhestredig ymgynghori ac ymglymu â phobl eraill y mae'n eu hystyried yn briodol. Wrth gyrraedd y penderfyniad o bwy sy'n briodol, rhaid i awdurdod ystyried yr angen i ymglymu neu ymgynghori â phobl o un neu fwy o'r grwpiau gwarchodedig sydd gyda diddordeb yn y ffordd y mae'r awdurdod yn ymgymryd â'i swyddogaeth, lle mae'n rhesymol ymarferol i wneud hynny.

Mae'n **rhaid** i'r ymgysylltiad hwn ddigwydd mewn perthynas â:

- gosod amcanion cydraddoldeb
- paratoi ac adolygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- nodi sut y gall gwaith a gweithgareddau awdurdod gyfrannu tuag at gwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol
- asesu'r effaith debygol ar grwpiau gwarchodedig o unrhyw bolisïau neu ymarferion sy'n cael eu cynnig neu'u hadolygu.

Ymgysylltu â phobl hŷn yng Nghymru

Ymgysylltu

'Ymglymiad parhaus pobl hŷn, eu fforymau/rhwydweithiau a'r sefydliadau statudol a sector gwirfoddol sy'n cynrychioli eu buddiannau drwy ymgynghoriad neu drafodaeth anffurfiol.'

Proses ddwyffordd yw ymgysylltiad sy'n cynnwys gwrando gweithredol. Dylai fod yn ystyrlon a dylai'r Awdurdod Lleol gael ei weld yn rhyngweithio gyda phobl hŷn, yn eu hannog i gyfranogi, mabwysiadu dull cynhwysol a dangos parodrwydd i newid o ganlyniad i ddysgu drwy ymgysylltu.

Ymgysylltu ymarferol:

- Dylai Awdurdodau Lleol ymgysylltu gydag amrediad eang o bobl hŷn yn barhaus. Gellir cyflawni hyn drwy sefydliadau sy'n cynrychioli pobl hŷn, ond yn ogystal dylai Awdurdodau Lleol ddarganfod ffyrdd i ymgysylltu ag unigolion nad ydyn nhw yn mynychu'r grwpiau mwyaf amlwg. Dylai Awdurdodau Lleol ystyried lle mae pobl hŷn a lle maen nhw'n mynd yn ystod eu bywydau beunyddiol. Ni ddylid meddwl am bobl hŷn fel grŵp ar wahân o weddill y gymuned. Gyda'u gwybodaeth a'u profiad, mae pobl hŷn mewn lle da i fesur pwysigrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau cymunedol.
- Dylai Awdurdodau Lleol gydnabod bod llawer o bobl hŷn yn parhau yn egnïol drwy barhau i weithio, ymrwymiadau gofal plant ac oedolion neu wirfoddoli ac felly ychydig o amser sydd ganddyn nhw i leisio eu pryderon a'u blaenoriaethau ynglŷn â gwasanaethau cymunedol. Mae gan bobl hŷn gyfyngiadau ar eu hamser yn yr un ffordd â phobl ifanc.
- Dylai Awdurdodau Lleol ystyried yn ogystal y bobl hŷn hynny nad ydyn nhw mor weladwy mewn bywyd beunyddiol: mae'n hanfodol nad ydyn nhw yn cael eu cadw allan o ymgysylltiad ar wasanaethau cymunedol.
- Dylai Awdurdodau Lleol sicrhau eu bod yn cynnwys pobl na chlywir eu lleisiau yn aml. Yn ogystal, ceir gofynion penodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fod yn rhaid i Awdurdodau Lleol gydymffurfio â nhw

mewn perthynas ag ymgysylltu â phobl gyda nodweddion gwarchodedig.

- Dylai Awdurdodau Lleol ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ar gyfer ymgysylltu, e.e. cynulleidfaoedd cyhoeddus, cyfarfodydd wyneb yn wyneb, gohebiaeth drwy lythyr neu e-bost, sgyrsiau ffôn, cyfryngwyr neu eiriolwyr lle bo'r angen. Dylai lleoliadau a gwybodaeth fod ar gael i bawb.
- Dylai gwahoddiadau i ymgysylltu fod yn agored ac arwain at berthynas barhaus gyda phobl hŷn, yn hytrach na bod yn gysylltiedig ag un mater unigol. Os yw unigolyn hŷn yn nodi rhwystr i ymgysylltu, yna dylai Awdurdodau Lleol wneud ymdrechion gwirioneddol i ddileu'r rhwystr hwnnw.
- Dylai ymgysylltiad ddigwydd pan fydd pobl hŷn yn cael cyfle gwirioneddol i gyfrannu eu meddyliau, lleisio'u pryderon a dylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Yn ogystal, dylid rhoi ystyriaeth i sut y mae fforymau lleol ac unigolion sy'n cynrychioli pobl hŷn fel Eiriolwyr dros Bobl Hŷn, Cydlynwyr Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn, a Fforymau 50+, yn gallu bwydo i'r broses ymgysylltu ac ymgynghori.
- Dylai Awdurdodau Lleol ddweud wrth bobl hŷn sut mae eu meddyliau a'u safbwyntiau wedi helpu i lunio'r cynigion ar gyfer ymgynghori.
- Dylai Awdurdodau Lleol roi sylw arbennig i Egwyddor 7 o Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn[3], sy'n datgan y dylai pobl hŷn aros yn integredig yn y gymdeithas a chyfrannu'n weithredol mewn llunio a gweithredu polisïau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu lles. Felly, mae darparu gwasanaethau cymunedol, mewn un ffurf neu'r llall, yn hanfodol yn y cyswllt hwn.

3 http://www.un.org/documents/ga/res/46/a46r091.htm

Ymgynghori â phobl hŷn yng Nghymru

Ymgynghori

‘Proses mwy ffurfiol, gyda ffocws, ond proses agored a ddylid ei defnyddio os yw newidiadau sylweddol neu ddadleuol i bolisïau neu ymarferion sy’n effeithio ar bobl hŷn dan ystyriaeth.’

Proses ddwyffordd yw ymgynghori sy’n galluogi pobl hŷn i gyfrannu at y broses o ddatblygu polisïau a gwasanaethau, a fydd yn arwain at bolisïau a threfniadaethau mwy realistig a chadarn sy’n adlewyrchu anghenion yr unigolyn a’r gymuned yn well. Dylai’r Awdurdod Lleol ddangos ymrwymiad tuag at fod yn agored ac yn atebol a pharodrwydd i newid o ganlyniad i ddysgu drwy ymgynghori.

- Mae’n rhaid i Awdurdodau Lleol ymgynghori ar adeg pan mae’r cynigion ar wasanaethau cymunedol yn parhau yn y cyfnod ffurfiannol.
- Dylai Awdurdodau Lleol sicrhau bod amrediad mor eang ag sy’n bosibl o bobl hŷn yn gwybod bod cyfnod ymgynghori ar fin digwydd.
- Dylai Awdurdodau Lleol sicrhau bod dogfennaeth ymgynghori yn hygyrch i’r amrediad ehangaf bosibl o bobl hŷn. Dylen nhw roi gwybodaeth ddigonol ynglŷn ag unrhyw gynnig ar wasanaethau cymunedol i ganiatáu pobl i ddeall beth sy’n cael ei gynnig a’r rhesymau y tu ôl iddo. Dylid defnyddio iaith eglur a dylid trefnu’r ddogfen mewn modd rhesymegol.
- Dylai unrhyw ddatganiad o ffeithiau a wnaed gan yr Awdurdod Lleol yn y ddogfen ymgynghori gael ei gefnogi gan dystiolaeth a dylai’r dystiolaeth hon fod yn hygyrch i bobl hŷn.
- Dylai Awdurdodau Lleol sicrhau bod cwestiynau sy’n cael eu gofyn mewn dogfennau ymgynghori yn gwestiynau agored – ac nid yn gwestiynau arweiniol - gyda sail gadarn yn y ddogfen ymgynghori ac unrhyw dystiolaeth gefnogol. Ni ddylai holiaduron gyfyngu’n ormodol ar allu’r unigolyn hŷn i roi ateb ystyrlon i’r cwestiynau a ofynnwyd, cyfyngu atebion i ‘ie’ neu ‘na’ yn unig, er enghraifft.
- Dylai’r Awdurdod Lleol roi amser digonol i bobl hŷn ystyried y wybodaeth ac ymateb.
- Dylai pob ymateb i’r ymgynghoriad gan berson hŷn gael ystyriaeth

ddyledus, heb ystyried sut mae'r ymateb hwnnw wedi cael ei gyflwyno.

- Dylai Awdurdodau Lleol ddangos i bobl hŷn eu bod wedi ystyried ymatebion yr ymgynghoriad yn gydwybodol wrth derfynu unrhyw gynigion ar wasanaethau cymunedol.

Asesiad effaith

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru asesu effaith tebygol polisïau ac ymarferion arfaethedig ar ei allu i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol ac asesu effaith unrhyw bolisi sy'n cael ei adolygu ac o unrhyw adolygiad arfaethedig. Rhaid i gyrff gyhoeddi adroddiadau o'r asesiadau lle maen nhw'n dangos effaith sylweddol (neu effaith debygol) ar allu awdurdod i gwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol a monitro effaith y polisïau a'r ymarferion ar ei allu i gwrdd â'r ddyletswydd honno.

Rhaid i adroddiadau ar asesiadau amlinellu yn arbennig bwrpas y polisi neu'r ymarfer (neu'r adolygiad) sydd wedi cael ei asesu a chynnwys crynodeb o'r camau y mae'r awdurdod wedi'u cymryd i wneud yr asesiad (yn cynnwys ymgysylltu perthnasol). Mae'n rhaid yn ogystal i grynodeb o'r wybodaeth y mae'r awdurdod wedi'i ystyried yn yr asesiad a chanlyniadau'r asesiad gael eu cyhoeddi gydag unrhyw benderfyniadau a gymerwyd mewn perthynas â'r canlyniadau hynny. Yn ychwanegol, wrth asesu ar gyfer yr effaith ar grwpiau gwarchodedig, mae'n rhaid i awdurdodau rhestredig gydymffurfio â'r darpariaethau ymgysylltu a rhoi sylw dyledus i'r wybodaeth berthnasol sydd gan yr awdurdod.

Swyddogaeth asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb mewn ymgysylltu ac ymgynghori

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

'Mae asesu effaith yn broses a ddylai sicrhau nad yw polisïau ac ymarferion yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn, neu'n cael effaith niweidiol ar, grwpiau sy'n cael eu gwarchod gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.'

Wrth asesu effaith, dylai Awdurdodau Lleol yn ogystal ystyried sut y gallai'r polisi neu'r ymarfer hyrwyddo cyfle cyfartal yn well, a sut y bydd yn effeithio ar gysylltiadau rhwng grwpiau. Mae asesu effaith yn ddyletswydd barhaus, ac nid yw'n ymarfer 'ticio blychau'. Dylid rhoi sylw dyledus i ganlyniadau'r asesiadau.

- Dylai Awdurdodau Lleol gydnabod bod ymgysylltu ac ymgynghori llwyddiannus yn ddibynnol ar asesiad effaith cadarn, yn cynnwys asesiad effaith ar gydraddoldeb. Mae swyddogaethau craffu Awdurdod Lleol yn hanfodol er mwyn penderfynu effaith unrhyw gynnig ac i benderfynu a oes gan gynnig effaith anghymesur ar unrhyw unigolion gyda nodweddion gwarchodedig, fel pobl hŷn.
- Dylai Awdurdodau Lleol gofio bod rhoi 'sylw dyledus' i'r ddyletswydd gydraddoldeb yn golygu ei bod yn ddyletswydd o sylwedd a dylid ei hymarfer yn drylwyr a chyda meddwl agored. Nid yw hyn yn fater o 'dicio blychau'.
- Dylai Awdurdodau Lleol gadw cofnod digonol o asesiadau effaith ar gydraddoldeb fel y gallan nhw ddangos ystyriaeth wirioneddol o'u dyletswyddau cydraddoldeb a thrafodaeth agored o gwestiynau perthnasol.
- Wrth asesu effaith, dylai Awdurdodau Lleol ystyried y ffaith gall wahaniaethu ynglŷn â gwasanaethau cymunedol fod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Byddai gwahaniaethu uniongyrchol yn digwydd lle mae unigolyn hŷn yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchodedig. Mae gwahaniaethu anuniongyrchol yn digwydd lle mae darpariaeth, maen prawf neu ymarfer yn cael ei ddefnyddio i bawb, ond sy'n rhoi'r rhai hynny gyda nodwedd warchodedig yn unig dan anfantais

mewn ffordd na ellir ei chyfiawnhau.

- Wrth gynnig newidiadau i wasanaethau cymunedol, dylai Awdurdodau Lleol dalu sylw arbennig i Egwyddor 18 o Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hyn[4], sy'n datgan y dylai pobl hŷn gael eu trin yn deg heb ystyried oed, rhyw, cefndir hiliol neu ethnig, anabledd neu unrhyw statws arall, a chael eu gwerthfawrogi'n annibynnol o'u cyfraniad economaidd i'r gymdeithas.

Mae canllawiau pellach ar asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gael ar wefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol[5].

Disgwyliad y Comisiynydd yw bod Awdurdodau Lleol yn cymryd camau gweithredol i sicrhau bod yn dryloyw ac yn agored mewn perthynas â'r prosesau a fabwysiadwyd a'r penderfyniadau dilynol, yn cynnwys atebolrwydd eglur ar gyfer y penderfyniadau a wnaed.

Dylai pob Awdurdod Lleol sicrhau eu bod yn gosod yn rhagweithiol, yn y parth cyhoeddus, fel eu gwefannau er enghraifft, yr holl ddogfennaeth sy'n arwain at wneud penderfyniadau sy'n arwain at newidiadau i wasanaethau cymunedol.

4 http://www.un.org/documents/ga/res/46/a46r091.htm
5 http://www.equalityhumanrights.com/cy/hafan/cymru/

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo, nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 08442 640 670

E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com
Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Trydar: @comisiwnphcymru